# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 3

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

*Cymhwyso'r ddyletswydd*

### 3 Pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys

(1) Daw'r ddyletswydd gonestrwydd yn effeithiol mewn perthynas â chorff GIG os yw'n ymddangos i'r corff fod y ddau o'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw bod person (y "defnyddiwr gwasanaeth") y mae'r corff yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol.

(3) Yr ail amod yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

(4) At ddiben yr amod cyntaf, mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 3 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Cymhwyso'r ddyletswydd.